**Sesiwn 1999-2000 Rhif 61**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD MAWRTH, 4 EBRILL 2000

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 2pm**

**Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd** (30 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Datganiad Busnes: y Trefnydd**

**Dadl ar adroddiad drafft y Pwyllgor Addysg cyn 16 oed 'Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Plant 3 oed'**
Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheolau Sefydlog 6.5 a 9.9, yn nodi adroddiad interim "Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Plant 3 oed " y Pwyllgor Addysg cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mawrth 2000 ac a ddosbarthwyd ar ffurf copi papur i Aelodau

**Dadl ar Adeilad Newydd y Cynulliad**
Cynnig bod y Cynulliad:-

1. yn nodi menter y Prif Ysgrifennydd i adolygu'r costau a'r opsiynau ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad;
1. yn nodi y gallai'r adolygiad beri i'r amserlen y cytunwyd arni newid;
1. yn pwyso am gynnal yr adolygiad cyn gynted ag y bo modd;

4. yn mynnu bod darganfyddiadau'r adolygiad, a chynigion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol, yn dod yn ôl at y Cynulliad er mwyn iddo wneud penderfyniad, ac y dylai'r wybodaeth allweddol sy'n sail iddynt fod ar gael

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth – ond bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol.

(1)

(2+3+5)

(4+6+7)

**Gwelliant 1 - Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Dileër 2,3 a 4 a gosoder y canlynol yn eu lle:

1. yn ei gwneud yn ofynnol bod y Prif Ysgrifennydd yn cyhoeddi'r ffigurau a arweiniodd at ei benderfyniad i ohirio'r prosiect dros dro.
1. yn penderfynu bod gohirio Adeilad Newydd y Cynulliad dros dro yn cael ei wneud yn barhaol.

**Gwelliant - 2 Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Yn yr ail bwynt dileër 'y gallai'r adolygiad' a gosoder 'bod yr adolygiad yn debygol o' yn ei le.

**Gwelliant 3 - Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Yn y trydydd pwynt dileër 'cyn gynted ag y bo modd' a gosoder 'ar frys' yn ei le.

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru);**
Dileu pwynt 3 a'i ddisodli gan bwynt 3 newydd "yn penderfynu cwblhau'r adolygiad o fewn 3 mis"

**Gwelliant 5 - Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Ym mhwynt 4 ar ôl y gair 'penderfyniad' ychwaneger 'ar ddydd Mawrth 8fed Mai 2000'

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru);**
Ym mhwynt 4 rhoi "yn gyhoeddus" ar ôl "ar gael"

**Gwelliant 7 - Peter Black (Gorllewin De Cymru);**
Ar ddiwedd y cynnig ychwanegu pwynt 5 "penderfynu bod y broses adolygu ei hun yn cael ei chynnal yn y dull mwyaf agored a thryloyw posibl"

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

********************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mercher, 5 Ebrill 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**